



Promoting improvements
in policing to make
everyone safer

Pa mor effeithlon mae'r llu ynghylch cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddu?

Trosolwg

Aseswyd Heddlu Gogledd Cymru fel llu da o ran effeithlonrwydd y ffordd mae'n cadw pobl yn ddiogel ac yn lleihau troseddu. Mae'n nodi'r pwysigrwydd o gael gwell ddealltwriaeth o alw cyfredol am ei wasanaethau fel y gellir defnyddio ei adnoddau'n effeithlon er mwyn blaenoriaethu ac ymateb i'r galw. Mae'r llu wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar feysydd datblygol newydd o alw ac mae wedi bod yn llwyddiannus o ran mynd i'r afael â bylchau yn ei weithlu ar gyfer y mwyafrif o raddau a rolau arbenigol. Mae gan y llu hanes cadarnhaol o gyflawni arbedion ar gyfer y dyfodol, ac adeiladir ei gynlluniau ar ragdybiaethau cadarn.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn dal i nodi'r pwysigrwydd o gael gwell ddealltwriaeth o alw cyfredol i sicrhau y gellir defnyddio ei adnoddau'n effeithlon er mwyn blaenoriaethu ac ymateb i'r galw. Mae'r llu'n dda o ran nodi'r galw am ei wasanaethau yn y dyfodol ac effaith adnoddau gostyngedig yn y sefydliadau mae'n gweithio wrth eu hochr, a sut y gallai hyn newid disgwyliadau'r cyhoedd. Mae'r llu wedi bod yn llwyddiannus o ran mynd i'r afael â bylchau yn ei weithlu mewn meysydd arbenigol o waith, megis ymchwiliadau troseddol ac amddiffyn pobl hygryw. Hefyd mae wedi nodi'r angen i gydweithredu'n agosach â sefydliadau golau-glas eraill er mwyn lleihau effaith adnoddau gostyngedig.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn dda o ran defnyddio ei adnoddau i reoli'r galw cyfredol ac mae wedi nodi'r angen i ganolbwyntio ar feysydd datblygol newydd o alw. Hefyd mae'n lleihau costau trwy foderneiddio'r gweithlu. Fodd bynnag, nid oes gan y llu ddadansoddiad manwl o fuddion technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh), i'w helpu i ddatblygu ei ddealltwriaeth o sut gellir defnyddio technoleg yn well er mwyn cefnogi ei ymateb i'r galw ar hyn o bryd ac yn y dyfodol ar draws pob maes o waith.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gydag eraill i wella sut mae'n rheoli'r galw am ei wasanaethau, ond nid oes ganddo ddealltwriaeth gyflawn eto o effeithiolrwydd ei fuddsoddiad ar hyn o bryd nac yn y dyfodol. Mae gan y llu system lywodraethu sefydliadol da o ran rheoli prosiectau ac mae'n dda o ran cynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol. Mae'r llu'n cydweddu niferoedd rhagamcanol ar gyfer y gweithlu a defnydd cynllunedig o adnoddau â'r galw, blaenoriaethau sefydliadol a gofynion ariannol. Mae'r llu wedi cyflwyno technoleg newydd yn ei ystafell reoli ac mae ganddo gynlluniau i ddarparu technoleg data symudol i swyddogion gweithredol. Mae'r llu'n

dechrau canolbwyntio ar y ddarpariaeth o ddata symudol, ac mae angen iddo sicrhau bod yr arferion gweithio mwy hyblyg ac addasadwy hyn yn cyflwyno buddion cyn diwedd 2017.

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru hanes cadarnhaol o gyflawni arbedion ar gyfer y dyfodol, ac adeiladir ei gynlluniau ar ragdybiaethau cadarn. Hefyd mae'r llu'n ceisio gwella effeithlonrwydd a chwtogi ar gostau i'w helpu i fantoli ei gyllideb ac mae ganddo gynlluniau cynaliadwy i ddefnyddio ei gronfeydd yn y dyfodol. Mae'n gweithio gyda sefydliadau eraill, gan ddefnyddio timau cymysg o'r gweithlu a allai fod yn atebol i reolwyr y tu allan i'r llu, er mwyn gwella effeithlonrwydd.

Mae cyfieithiadau o'r adroddiadau llawn ar gael ar gais:

contact@hmic.gsi.gov.uk